

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Craffu Pobl

Dydd Mercher, 21ain Ionawr, 2026 at 10.00 am

Councillors Present

Cynghorydd Sir Jackie Strong (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir: Jan Butler, Christopher Edwards,
Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell,
Sue Riley, Martyn Groucutt, Jill Bond,
Martin Newell, Paul Pavia, Peter Strong

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Craffu
Wendy Barnard, Swyddog Gwasanaethau
Democrataidd
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a
Chyrhaeddiad
Suzanne Challenger, Lead Education Welfare
Officer
Sonia Morgan, Support Officer - Elect Home
Educated Pupils

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sir Maria Stevens, Steven Garratt, Meirion Howells, Alistair Neill

1. Datganiadau o Fuddiant.

Dim.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Dim.

3. Addysg Ddewisol Gartref – Craffu'r adroddiad perfformiad (cafodd y polisi ei oedi). Adroddiad i ddilyn.

Ystyriwyd eitemau 4 a 5 ar yr un pryd.

Rhoddodd Sharon Randall-Smith gyflwyniad, cyflwynodd yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Sonia Morgan a Suzanne Challenger:

A yw ymweliad blynyddol yn ddigon i ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref?

Mae ymweliadau blynyddol yn wiriadau lles a chwricwlwm ffurfiol, ond mae gweithgareddau cyfoethogi trwy gydol y flwyddyn yn darparu cyfleoedd ychwanegol i weld plant a theuluoedd yn rheolaidd. Mae dysgwyr sydd newydd eu dadgofrestru yn derbyn ymweliad cychwynnol, ac yna ymweliad blynyddol tua thri mis yn ddiweddarach, ac mae cyswllt parhaus yn cael ei gynnal trwy e-bost neu ffôn.

Pa mor hir mae ymweliadau blynyddol yn para?

Mae hyd yr ymweliad yn amrywio, gan bara o un i dair awr yn dibynnu ar anghenion y teulu a'r wybodaeth y maent am ei rhannu.

A yw un swyddog ymroddedig yn ddigon o ystyried y nifer cynyddol o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref, a phryd y bydd y terfyn yn cael ei gyrraedd?

Mae'r cynnydd sylweddol yn niferoedd Addysg Ddewisol Gartref yn cael ei gydnabod. Ar hyn o bryd mae'r tîm GLIA ehangach yn cefnogi gwaith Addysg Ddewisol Gartref, gyda'r gobaith o gynyddu capasiti yn y dyfodol agos.

A yw gweithgareddau cyfoethogi yn caniatáu asesiad dyfnach, ac a yw darlun gwir o deuluoedd problemus yn cael ei gael gyda dim ond un awr y flwyddyn? A fyddai mwy o amser yn ddelfrydol?

Mae gweithgareddau cyfoethogi yn werthfawr ar gyfer adeiladu perthnasoedd ac arsylwi plant mewn gwahanol leoliadau, ond y prif ffocws yw sicrhau bod plant yn ddiogel, yn hapus, ac yn datblygu sgiliau angenrheidiol, yn hytrach nag asesiad ffurfiol.

Pa ganran o deuluoedd sy'n mynychu'r gweithgareddau cyfoethogi?

Mae'r presenoldeb yn uchel iawn. Er nad oedd canran union wedi'i roi, mae'r ymateb yn dangos bod gweithgareddau cyfoethogi yn cael eu "mynychu'n dda iawn gan bron y rhan fwyaf o deuluoedd." Priodolir y presenoldeb uchel i berthynas gref â theuluoedd yn Sir Fynwy.

A yw'r gweithgareddau cyfoethogi yn ddewisol?

Ydynt. Mae gweithgareddau cyfoethogi yn gwbl ddewisol. Nid oes unrhyw beth yn orfodol, ond mae presenoldeb yn parhau i fod yn gryf oherwydd yr ymgysylltiad da a'r berthynas â theuluoedd.

Beth sy'n digwydd pan na fydd rhieni neu blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi?

Gall rhai teuluoedd fod yn "anodd ymgysylltu â hwy," ond mae'r achosion hyn yn brin. Nid oes hawl gyfreithiol i fynnu gweld plentyn dim ond oherwydd eu bod yn cael eu haddysgu gartref. Mae'r tîm yn dal i geisio cynnal cyfathrebu â'r teuluoedd hyn ac os oes pryderon, gallwn weithio gydag asiantaethau eraill i gael mynediad at y plentyn a'r teulu a'u gwirio. Os oes pryderon difrifol am yr addysg sy'n cael ei darparu, gallwn gyhoeddi Gorchymyn Presenoldeb Ysgol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Mae Gorchymynion Presenoldeb Ysgol yn brin iawn fodd bynnag, yn bennaf oherwydd y gwaith cryf y mae'r tîm yn ei wneud gyda theuluoedd.

A yw ymweliadau blynyddol yn statudol (yn ofynnol yn gyfreithiol)?

Na, nid yw ymweliadau blynyddol yn statudol. Nid oes unrhyw bŵer cyfreithiol i fynnu bod plentyn yn cael ei weld. Mae ymgysylltu yn cael ei annog trwy berthnasoedd cadarnhaol yn hytrach na rhwymedigaeth gyfreithiol.

A all plant a addysgir yn y cartref golli allan ar ryngweithio cymdeithasol dyddiol a dysgu cymysgu â chyfoedion, waeth beth yw ansawdd addysgu cartref?

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref yn Sir Fynwy yn mynychu gweithgareddau grŵp, clybiau a chyfleoedd cyfoethogi amrywiol, gan sicrhau bod ganddynt ddigon o gyfleoedd i gymdeithasu ac adeiladu cyfeillgarwch ystyrlon. Mae gan hyd yn oed y rhai mewn ardaloedd gwledig drafnidiaeth dda yn gyffredinol ac maent yn weithgar yn y gymuned.

Allwch chi esbonio'r acronym "NSSA"?

Yn Saesneg, mae "NSSA" yn sefyll am "not of statutory school age" sef "nid o oedran ysgol statudol."

Sut mae addasrwydd addysg gartref yn cael ei farnu, ac a oes meini prawf gwrthrychol fel y cwricwlwm cenedlaethol?

Mae addasrwydd yn cael ei farnu trwy sicrhau bod plant yn datblygu llythrennedd, rhifedd, ac ystod o sgiliau, ond nid oes cwricwlwm penodol na meini prawf gwrthrychol; mae llawer o deuluoedd yn dilyn y cwricwlwm yn wirfoddol, yn enwedig os ydynt yn anelu at TGAU, ond mae dysgu wedi'i deilwra i bob plentyn.

Beth mae rhesymau "ffordd o fyw neu ideolegol" yn ei olygu i deuluoedd sy'n optio allan o ysgol?

Mae rhesymau "ideolegol" yn gyffredinol yn cyfeirio at deuluoedd sy'n credu bod eu plant yn cael eu haddysgu'n well y tu allan i'r system ysgol, yn aml oherwydd anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, neu i ddilyn diddordebau arbenigol (e.e., chwaraeon). Mae'r term yn fwy am ddewis ffordd o fyw nag ideoleg lem.

A yw adrodd yn caniatáu athroniaeth addysgol wahanol ac yn gwahaniaethu rhwng safonau addysg yn yr ysgol a'r cartref?

Nid yw'r tîm yn cymharu addysg gartref yn uniongyrchol â safonau'r ysgol ond yn sicrhau bod addysg yn addas ac wedi'i deilwra; mae llawer o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cymryd TGAU ac mae rhai yn dychwelyd i addysg brif ffrwd neu'n mynd i'r brifysgol.

Beth yw hyfforddiant a phrofiad y tîm mewn addysg ddewisol gartref ac addysg ysgol, yn enwedig o ran nodi materion addysg is-safonol neu ddiogelu?

Mae'r tîm yn brofiadol, yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf ar wahanol athroniaeth addysgol, ac wedi'i hyfforddi mewn materion diogelu i lefel uchel.

A oes niferoedd ar blant nad ydynt erioed wedi mynychu'r ysgol, neu nad ydynt wedi gwneud hynny am fwy na blwyddyn (h.y. addysg gartref hirdymor)?

Nid yw nifer y plant nad ydynt erioed wedi mynychu'r ysgol ar gael ar hyn o bryd ond gellir ei ddarparu. – **CAM GWEITHREDU**

Faint o deuluoedd sydd wedi'u haddysgu gartref sy'n deuluoedd un plentyn, a beth am unigedd cymdeithasol posibl?

Nid yw data ar gyfansoddiad teuluoedd (e.e., teuluoedd un plentyn) yn cael ei gasglu yn rheolaidd, ond mae gan y rhan fwyaf o deuluoedd frodyr a chwiorydd. Mae'r tîm yn gwirio am unigedd cymdeithasol yn ystod ymweliadau ac yn cynghori ar ymgysylltu â'r gymuned os oes angen.

Sut mae'r tîm yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle gall pryderon rhiant atal plentyn rhag mynychu'r ysgol, hyd yn oed os yw'r plentyn yn dymuno dychwelyd?

Os yw plentyn yn mynegi awydd i ddychwelyd i'r ysgol, mae'r tîm yn cefnogi hyn, yn blaenoriaethu llais disgyblion, ac wedi hwyluso dychwelyd i addysg brif ffrwd pan fo'n briodol.

A yw'r rhan fwyaf o achosion o addysg gartref oherwydd gorbryder neu ffobiâu yn ddewis olaf ar ôl i rieni fynd yn rhwystredig gyda'r awdurdod?

Nid ydynt bob amser yn ddewis olaf; mae rhieni yn aml yn ceisio ymyriadau amrywiol yn yr ysgol yn gyntaf. Mae llawer yn adrodd bod lles eu plentyn yn gwella ar ôl symud i addysg gartref, gan ei fod yn dileu ffynhonnell y gorbryder.

Beth mae'r awdurdod yn ei wneud os yw gorbryder neu ffobiâu yn cael eu nodi'n gynnar, ac ai'r nod yw dychwelyd y plentyn i'r ysgol?

Mae ysgolion a'r awdurdod yn cynnig cefnogaeth sylweddol, gan gynnwys ymyriadau iechyd meddwl ac atgyfeiriadau. Os yw plentyn yn cael ei addysgu gartref, gallant gael mynediad at wasanaethau cymorth o hyd. Mae'r penderfyniad i ddychwelyd i'r ysgol yn dibynnu ar anghenion y plentyn a dewis teuluol; mae rhai yn dychwelyd gyda chefnogaeth.

A oes plant ar goll o addysg o hyd sydd "o dan y radar" ac nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod?

Oes, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, mae rhai plant yn parhau i fod heb eu cyfrif, ond mae'r awdurdod yn hyderus eu bod yn ymwybodol o'r mwyafrif ac yn eu dilyn a'u cefnogi'n weithredol.

Pa ganran o ddysgwyr Blwyddyn 11 a addysgwyd gartref a oedd wedi sefyll TGAU, a sut mae hyn yn cymharu â'r hyn y byddai'n ddisgwyliedig pe baent yn yr ysgol?

Roedd tua 30% o ddysgwyr cymwys Blwyddyn 11 a addysgwyd gartref yn sefyll TGAU gyda'r awdurdod. Mae hyn yn is na'r cyfranogiad cyffredinol a ddisgwyliir mewn ysgolion.

Sut mae hyn yn ymwneud â statws Nid mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant, ac a oes olrhain canlyniadau hirdymor?

Efallai y bydd rhai dysgwyr yn cael eu dosbarthu fel Nid mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant os nad ydynt yn cyflawni cymwysterau, ond mae llawer yn dilyn addysg bellach ac yn cymryd TGAU yn ddiweddarach. Nid yw'r awdurdod ar hyn o bryd yn olrhain deilliannau tymor hir ond yn cydnabod y gwerth mewn gwneud hynny wrth i'r niferoedd dyfu.

A oes patrwm mewn anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ymhlith plant sy'n cael eu haddysgu gartref, ac a yw hyn yn gysylltiedig ag ysgolion penodol?

Mae ADY yn bresennol ar draws pob ysgol, heb ei ganolbwyntio mewn unrhyw un penodol. Efallai na fydd y diffiniad o ADY yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r meini prawf cyfredol yn llawn, gan ei fod yn cynnwys rhwystrau canfyddedig i ddysgu, nid statws ADY ffurfiol yn unig.

Pa ganran o deuluoedd sy'n mynychu gweithgareddau cyfoethogi, ac a yw'r gweithgareddau hyn yn ddewisol? Beth sy'n digwydd os nad yw rhieni neu blant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn? A oes unrhyw rannau o'r cymorth yn orfodol, fel ymweliadau blynyddol?

Mae gweithgareddau cyfoethogi yn boblogaidd iawn ac yn cael eu mynychu'n dda gan y mwyafrif o deuluoedd, ond mae cyfranogiad yn ddewisol. Nid oes hawl gyfreithiol i'r awdurdod fynnu gweld y plentyn, ond maent yn ymdrechu i gynnal cyfathrebu. Os oes pryderon am addysg neu les plentyn, gall yr awdurdod weithio gydag asiantaethau eraill neu gyhoeddi gorchymyn presenoldeb ysgol os oes angen, er bod hyn yn brin. Cynigir ymweliadau blynyddol ond nid ydynt yn orfodol yn ôl y gyfraith.

Mae'r adroddiad yn nodi bod Addysg Ddewisol Gartref yn fwy cyffredin mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig ym mlynnyddoedd 10 ac 11, gyda ffactorau fel Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol, iechyd meddwl, pryder, trawma ac ADY. A allai hyn hefyd fod yn symptom o angen heb ei ddiwallu mewn addysg brif ffrwd? Os felly, pa gamau ataliol sy'n cael eu cymryd gydag ysgolion uwchradd i leihau ffactorau gwrthio i Addysg Ddewisol Gartref?

Cydnabyddir, er bod rhai myfyrwyr yn hanesyddol yn optio allan ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 oherwydd straen, mae'r awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant i ysgolion ar gynhwysiant, osgoi'r ysgol ar sail emosiynol, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a niwrowahaniaeth. Nod yr ymdrechion hyn yw cefnogi myfyrwyr a chynnal eu lleoliadau ysgol. Fodd bynnag, i rai, mae addysg gartref yn dal i gael ei ddewis am resymau lles, yn enwedig ar ôl y pandemig.

O ran Plant sy'n Colli Addysg, mae'r polisi yn cyfeirio at gyfnod o bedair wythnos arferol i blant sy'n dod oddi ar y gofrestr, ond mae risg o niwed yn y cyfnod hwnnw. A oes model brysbennu risg i benderfynu pryd mae angen cynnydd ar unwaith, ac a oes atgyfeiriadau ar yr un diwrnod i'r heddlu neu wasanaethau plant os oes angen?

Os codir materion diogelu, gall y tîm gynnull cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth brys o fewn oriau, gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau plant. Mae ymagwedd ragweithiol at risg, ac mae cynnydd yn digwydd yn gyflym pan fo angen.

Mae Plant sy'n Colli Addysg yn gofyn am ddull aml-asiantaeth. A yw atgyfeiriadau gan asiantaethau partner (heddlu, cyfiawnder ieuenctid, tai) yn digwydd mewn modd amserol, ac a oes rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Mae rhannu gwybodaeth yn gadarn, gydag atgyfeiriadau rheolaidd gan dai, yr heddlu (trwy Ymgyrch Encompass), ac asiantaethau eraill. Mae'r tîm wedi datblygu pecyn hyfforddiant ar gyfer yr holl randdeiliaid i wella ymwybyddiaeth a phrotocolau. Mae symudiad plant ar draws ffiniau yn cael ei olrhain gyda ffurflenni a chadarnhad uniongyrchol gydag awdurdodau eraill, i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei golli yn y system.

Wrth anfon ffurflenni symud allan o'r ardal at awdurdodau eraill, a oes cadarnhad bod yr awdurdod derbyn wedi codi'r atgyfeiriad, neu a allai teuluoedd gael eu colli yn y system?

Nid yw achos wedi'i gau nes ein bod wedi derbyn cadarnhad gan yr awdurdod derbyn eu bod wedi codi'r atgyfeiriad ac y byddant yn olrhain y plentyn i addysg.

Wrth fyfyrrio ar gyd-destun hanesyddol y cwricwlwm cenedlaethol fel hawl i bob plentyn, a oes cysyniad o gorff craidd o ddysgu y dylai pawb ei gael, o ystyried y ffocws presennol ar ddiddordebau unigol a dysgu pwrpasol?

Mae cwricwlwm Cymru bellach yn llyfn ac yn bwrpasol i'r dysgwr, gydag ysgolion yn cynnig cwricwlwm cyd-destunol wedi'u teilwra i anghenion y gymuned a'r disgyblion. Nod addysg ysgol a chartref yw datblygu sgiliau tebyg i alluogi plant i ffynnu a chael opsiynau yn y dyfodol.

Mae pryderon am blant sy'n derbyn gofal nad ydynt efallai erioed wedi mynychu ysgol ffurfiol. Sut mae eu dysgu yn cael ei gyfeirio a sut maen nhw'n cael eu cefnogi i wybod beth sy'n bwysig ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol, o ystyried y risg o "beidio â gwybod yr hyn nad ydych chi'n ei wybod."

Mae systemau addysg ysgol a chartrefi yn ymdrechu i ddiwallu anghenion unigol, a dylai'r sgiliau a ddatblygir galluogi pob plentyn, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a chael cyfleoedd i lwyddo.

Beth yw'r cydbwysedd athronyddol rhwng gwerth cymdeithasol mynychu'r ysgol a pharchu dewisiadau plant a rhieni ar gyfer addysg gartref?

Rydym yn cydnabod hawl rhieni i ddewis addysg gartref neu ysgol, a byddem yn pwysleisio bod y ddau opsiwn yn ddilys a dylent arfogi plant gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd.

Pa ddata ychwanegol y gellid ei gynnwys yn yr adroddiad i helpu i nodi achosion sylfaenol cynyddu niferoedd Addysg Ddewisol Gartref, ac a oes dysgu gan awdurdodau eraill yng Nghymru ynghylch tueddiadau ac arferion gorau?

Mae Sir Fynwy ymhlith yr uchaf yng Nghymru ar gyfer ymweliadau ag Addysg Ddewisol Gartref ac mae'n cadw cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau eraill i rannu arferion gorau a chymharu tueddiadau.

A yw ysgolion yn gwneud digon i helpu pobl ifanc i ffynnu, yn enwedig o ran gwytnwch a dysgu cymdeithasol-emosiynol? A oes digon o gefnogaeth ragweithiol cyn i faterion fel bwlio neu bryder godi, ac a yw'r ddarpariaeth bresennol (e.e. Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) yn ddigonol?

Mae llawer o ymyriadau ar waith, ond mae rhai plant yn cyrraedd pwynt dirlawnder lle nad yw'r ysgol brif ffrwd yn addas mwyach. Yna ystyrir bod Addysg Ddewisol Gartref yn opsiwn hyfyw, ac er bod ysgolion yn gwneud popeth y gallant i gefnogi presenoldeb a lles, gall rhai anghenion fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.

A yw portffolios dysgu neu dystiolaeth o berfformiad parhaus yn cael eu cynnal ar gyfer plant Addysg Ddewisol Gartref i helpu i osgoi statws Nid mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant yn y dyfodol?

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn darparu adroddiadau cynhwysfawr, lluniau, a thystiolaeth o ddysgu, sy'n cael eu huwchlwytho i ffeiliau plant. Fodd bynnag, mae nifer fach o deuluoedd yn gwrthod rhannu gwaith, gan nodi polisi Llywodraeth Cymru, ac nid oes gan swyddogion hawl gyfreithiol i fynnu eu bod yn rhannu.

A oes gan swyddogion y gallu i ddilyn pob portffolio a sicrhau ansawdd?

Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn ymgysylltu ac yn darparu tystiolaeth, mae'r capasiti yn cael ei ymestyn, ac mae rhai teuluoedd yn cyflwyno diweddariadau e-bost yn unig. Mae'r tîm yn ystyried cynyddu adnoddau i gwrdd â'r galw cynyddol.

Pa ymgysylltiad sydd gan yr aelod o'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr Addysg gyda'r timau Addysg Ddewisol Gartref a Phlant sy'n Colli Addysg, yn enwedig o ystyried straen cynyddol a phwysau ariannol?

Cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd gyda Will McLean (Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc) a Laura Wright (Aelod o'r Cabinet) i drafod presenoldeb, Addysg Ddewisol Gartref, Plant sy'n Colli Addysg, a materion cysylltiedig. Mae'r ddau yn cael eu hysbysu am niferoedd cynyddol Addysg Ddewisol Gartref a materion brys eraill.

Pam roedd diffyg ymateb gan y Cyfarwyddwr Addysg ynglŷn â niferoedd Addysg Ddewisol Gartref yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, ac a ellir sicrhau bod ffigurau Addysg Ddewisol Gartref yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol i'r Cyngor yn y dyfodol?

Bydd adroddiadau blynyddol o ffigurau Addysg Ddewisol Gartref i'r Cyngor yn cael eu gweithredu, ac rydym yn nodi nad yw'r flwyddyn Addysg Ddewisol Gartref yn cyd-fynd â blynyddoedd academiaidd, ariannol neu galendr, sy'n cymhlethu adrodd. Bydd y tîm yn sicrhau bod ffigurau a newidiadau polisi wedi'u diweddarau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor bob blwyddyn

– ARGYMHELLIAD

A oes achosion lle nad yw'r cyfarfod a argymhellir rhwng yr ysgol a'r rhieni (pan fydd rhieni'n penderfynu addysgu gartref) yn digwydd, ac a fyddai'n fuddiol i aelod o'r tîm fynychu'r cyfarfodydd hyn?

Er ei bod yn cael ei argymhell i ysgolion gwrdd â theuluoedd cyn dadgofrestru, mae rhai rhieni yn gwrthod gan eu bod eisoes wedi gwneud eu penderfyniad. Mae Sonia Morgan weithiau'n mynychu cyfarfodydd ailintegreiddio pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol, ond nid yw'n safonol iddi fod yn rhan ohono cyn dadgofrestru.

Sut mae gwybodaeth am ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael ei storio, ac am ba hyd y caiff ei chadw?

Mae'r holl ddata yn cael ei gadw'n ddiogel o dan reoliadau RhDDC. Mae ffeiliau'n cael eu cau pan fydd plentyn yn dychwelyd i'r ysgol neu'n cyrraedd diwedd oedran ysgol statudol, ond mae cofnodion yn cael eu cadw o fewn system SharePoint yr awdurdod am o leiaf ddegawd.

O ran polisi Plant sy'n Colli Addysg, a yw'r cyfnod hysbysu 15 diwrnod yn rhy hir, a pha fesurau diogelu sydd ar waith os yw plentyn yn gadael ysgol heb rybudd?

Er y gall 15 diwrnod fod yn hir, mae disgyblion yn aros ar y gofrestr ysgol wreiddiol nes eu derbyn mewn manau eraill, a disgwylir i ysgolion gynnal gwiriadau cyswllt a diogelu dyddiol. Rhaid i ysgolion gadw'r plentyn ar y gofrestr a diweddarau'r swyddog Plant sy'n Colli Addysg, sy'n cadarnhau derbyn ac yn olrhain statws y plentyn.

A yw llinellau sirol neu gaethwasiaeth yn cael eu hystyried wrth ddilyn plant ar goll, ac a yw hyn yn rhan o'r cylch gorchwyl?

Mae pryderon o'r fath wedi'u cynnwys. Os yw plant yn croesi llinellau sirol neu os oes pryderon diogelu (gan gynnwys caethwasiaeth), mae gwasanaethau plant yn cymryd rhan ar unwaith, ac mae cydlynu ag awdurdodau perthnasol yn parhau hyd yn oed os yw plant yn symud i wledydd eraill.

Beth sy'n digwydd os gwrthodir mynediad i blentyn, a beth yw'r broses os yw plentyn ar goll neu heb ei ddarganfod (gan gyfeirio at bolisi Plant sy'n Colli Addysg tudalen 32)?

Os na ellir dod o hyd i blentyn, mae ei fanylion yn cael eu llwytho i fyny i gronfa ddata genedlaethol (system Ysgol i Ysgol) sy'n hygyrch gan bob awdurdod, ac mae'r achos yn parhau i fod ar agor nes bod y plentyn yn cael ei ddarganfod. Os na ddarganfuwyd, mae gwasanaethau plant a'r heddlu yn cymryd rhan. Os gwrthodir mynediad yn ystod ymweliad, gwneir atgyfeiriad at wasanaethau plant, a cheisir ymweld ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol, gan gynyddu i amddiffyn plant os oes angen.

Pam nad oes gan y polisi Plant sy'n Colli Addysg asesiad effaith integredig a rennir â'r polisi? A allwn ni ddangos ein bod yn siŵr bod pob grŵp yn cael ei drin yn gyfartal a'n bod yn cyflawni nodau'r cynllun corfforaethol trwy gwblhau'r asesiad risg?

Ymddiheuriadau nad oes asesiad effaith integredig. Felly byddwn yn edrych ar hynny. Mae'r polisi wedi'i seilio'n fawr ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ac felly byddai disgwyl y byddai wedi mynd trwy'r prosesau hynny. Ond wrth gwrs byddwn yn cyflawni hynny a bydd ar gael pan fydd wedi'i gwblhau.

A oes unrhyw ffordd o gynorthwyo teuluoedd Addysg Ddewisol Gartref gyda phrydau ysgol am ddim neu dalebau bwyd, o ystyried y ganran uchel o blant cymwys?

Nid oes cymhorthdal ariannol na throsglwyddo cronfeydd prydau ysgol am ddim i deuluoedd Addysg Ddewisol Gartref; mae rhieni yn cymryd cyfrifoldeb ariannol llawn am gostau addysgol, gan gynnwys prydau bwyd, pan fyddant yn dadgofrestru eu plentyn o'r ysgol brif ffrwd.

A fu achosion o rieni yn mynd â phlant allan o ysgolion preifat i hunan-addysgu oherwydd ffioedd uwch, ac os felly, faint?

Mae hyn yn digwydd, ond ni ellid darparu union ffigurau heb wirio cofnodion. Mae yna hefyd achosion o blant yn symud o brif ffrwd i addysg breifat.

Beth yw'r rhagolygon ar gyfer cyllid ar gyfer Addysg Ddewisol Gartref ar ôl i'r cyllid presennol ddod i ben ar Fawrth 31^{ain}?

Mae'r tîm ar hyn o bryd yn edrych ar grantiau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn rhagweld y bydd y cyllid yn parhau, ond nid oes ateb pendant eto.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hamser a'u hegni, ar ran yr aelodau, gan nodi pa mor ddefnyddiol yw'r adroddiadau.

Argymhelliad: bod y tîm yn sicrhau bod ffigurau wedi'u diweddarau a newidiadau polisi yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor bob blwyddyn.

4. Polisi Plant sy'n Colli Addysg – Craffu'r polisi cyn ei fabwysiadu. Adroddiad i ddilyn.

Ystyriwyd yr eitem hon gydag eitem 4 uchod.

5. Blaenraglen Waith a Rhestr Camau Gweithredu Craffu Pobl.

Mae newidiadau i'r rhaglen waith ers i'r agenda gael ei chyhoeddi, gyda'r cyfarfod nesaf yn cynnwys yr Addewid Hyderus o ran Anabledd a'r Strategaeth Rhianta Gorfforaethol, sy'n sensitif i amser a bydd yn cael ei flaenoriaethu. Mae'r Polisi Dyrannu Sipsiwn a Theithwyr yn aros am gadarnhad a gellir ei drefnu cyn eitemau eraill os yw'n dod yn sensitif i amser. Mae eitemau eraill, fel y Gwasanaeth Ieuencid a'r Strategaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus, wedi'u symud i lawr yr amserlen a byddant yn cael eu cadarnhau yn nes ymlaen.

6. Cynllunyydd y Cyngor a'r Cabinet.

Nodwyd.

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cytunwyd ar y cofnodion, cynigiwyd gan y Cynghorydd Groucutt ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jones.

8. Cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 10 Chwefror 2026.